Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Playdays**

**Y Frenni**
**Canolfan Blant Intregredig**
**Crymych**
**SA41 3QH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/09/2023

## Meithrinfa Playdays

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Kelly McDonald |
| Lleoedd cofrestredig | 45 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, mae ganddynt lais cryf a gallant wneud dewisiadau a phenderfyniadau yn annibynnol. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored, sy'n ennyn chwilfrydedd a diddordeb. Mae'r plant yn hyderus wrth gyfathrebu â'i gilydd ac â'r staff.

Mae'r staff yn gweithredu polisïau'n gyson ac yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol, diogelwch personol, a llesiant. Mae'r staff yn canmol y plant mewn ffordd gadarnhaol am ddal ati ac am ymddygiad da. Maent yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae a dysgu â rhywfaint o gydbwysedd rhwng cyfleoedd dan arweiniad y plentyn a chyfleoedd dan arweiniad yr oedolyn. Mae'r staff yn cynllunio ac yn asesu mewn ffordd bwrpasol er mwyn gwneud yn siŵr bod diddordebau a chwilfrydedd y plant yn cael eu datblygu ymhellach.

Mae'r amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do ac ardal chwarae awyr agored da iawn er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y defnyddir yr ardal chwarae awyr agored bob dydd. Maent yn darparu adnoddau ysgogol ac arloesol i bob oedran a cham datblygu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac maent yn rhagori ar y rhan fwyaf o'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ganddynt weledigaeth gref ar gyfer y dyfodol ac maent yn sicrhau eu bod yn rheoli eu tîm gan gynnig cymorth effeithiol a hyfforddiant parhaus. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i gynnig gofal o safon uchel iawn i'r plant. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni, y gofalwyr a'r gymuned ac maent yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau bod pob plentyn sy'n cael gofal ganddynt yn cael gofal a chymorth effeithiol.

**Llesiant** **Da**

Mae’r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn cyfathrebu'n hyderus ac yn ymgysylltu â'u ffrindiau ac â'r staff ac roedd rhai yn teimlo'n gyfforddus i sgwrsio â ni. Er enghraifft, gwnaethant ofyn yn hyderus beth oedd ein henwau a beth oedden ni'n ei wneud. Caiff lleisiau'r plant eu clywed, a gallant ddewis beth yr hoffent chwarae ag ef ac ym mhle. Er enghraifft, roedd llawer o'r plant yn chwarae yn yr awyr agored, ac wrthi'n chwarae â'r tywod neu'r dŵr, ond roedd nifer bach ohonynt wedi dewis aros yn yr ardal dan do, er mwyn chwarae yn y gornel gartref.

Mae'r plant yn ymdopi'n dda iawn wrth gael eu gwahanu. Mae'r trosglwyddiadau dyddiol yn effeithlon ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol, gan gydnabod a diwallu anghenion unigol yn llawn. Maent yn meithrin cysylltiadau emosiynol cadarnhaol â'r staff a gyda'i gilydd. Gwelsom blant yn troi'n gyfforddus at y staff am gymorth. Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad hwn. Gwelsom fod y plant yn gwenu, yn chwerthin ac yn mwynhau eu hamser yno. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd iawn ag arferion y lleoliad.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n hapus ac yn llawn brwdfrydedd a chyffro â'r staff yn ystod eu gweithgareddau ac yn cael eu hysbrydoli a'u cymell. Er enghraifft, mae'r plant yn chwarae rôl gan ddefnyddio ffôn hen ffasiwn i sgwrsio tra'n hwfro ar yr un pryd. Yn yr awyr agored, mae'r plant yn cyfrif yn llawn cyffro faint o bili-palod y gallant eu gweld yn hedfan o amgylch yr ardd berlysiau. Mae'r plant yn dysgu i gymryd eu tro ac i rannu teganau.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd diddorol ac yn cael rhyddid i archwilio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel. Mae ganddynt hunangymhelliant i fwrw ati i ddechrau eu chwarae eu hunain ac i ddylanwadu ar eu tasgau, gan fod cydbwysedd da rhwng gweithgareddau dan arweiniad y plentyn a gweithgareddau dan arweiniad yr oedolyn. Er enghraifft, gofynnodd y plant a allent ymweld â’r llyfrgell yn ystod amser stori am ‘The tiger who has a tantrum’ a threfnwyd ymweliad â’r llyfrgell leol o ganlyniad.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da iawn i ddatblygu annibyniaeth. Gwnaethant ddewis pa ffrwyth roeddent am ei gael a defnyddio cyllell i'w dorri. Wedyn, gwnaethant arllwys dŵr iddyn nhw eu hunain allan o jwg. Mae'r plant yn mynd at yr adnoddau a'r gweithgareddau yn hyderus, a chânt gyfleoedd i gynllunio a gwerthuso gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn gweithredu polisïau'n gyson ac yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol, diogelwch personol, a llesiant. Mae'r staff yn nodi risgiau ac yn rheoli hyn mewn modd rhagweithiol ac effeithiol. Mae gan y staff ddealltwriaeth drylwyr o'u rôl o ran amddiffyn plant a gwnaethant ateb cwestiynau diogelu yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys cymorth cyntaf pediatrig, amddiffyn plant a hylendid bwyd. Mae'r staff yn llenwi cofnodlyfrau damweiniau a chaiff y rhain eu cydlofnodi gan y rhieni / gofalwyr.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn canmol y plant mewn ffordd gadarnhaol am ddal ati ac am ymddygiad da. Er enghraifft, pan oedd sawl plentyn eisiau defnyddio'r car, awgrymodd y staff mewn ffordd bwyllog y gallent chwarae â rhywbeth arall tan y byddai'r car ar gael, gan eu canmol am wneud hynny. Mae'r staff yn defnyddio technegau rheoli ymddygiad effeithiol gan gynnwys tynnu sylw ac anwybyddu ymddygiad negyddol mewn modd digynnwrf.

Mae'r staff yn ymateb yn gyson. Maent yn gwneud pob ymdrech i wrando'n astud ac i gyfathrebu â'r plant. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd, caredigrwydd ac amynedd. Mae'r staff yn cymryd amser i sicrhau eu bod yn rhyngweithio mewn modd ystyrlon sydd o fudd i'r plant sy'n cael gofal ganddynt. Maent yn angerddol yn eu rolau ac yn falch bod yn rhan o'r tîm.

Mae'r staff yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae a dysgu â chydbwysedd priodol rhwng cyfleoedd dan arweiniad y plentyn a chyfleoedd dan arweiniad yr oedolyn. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant gan chwilio am gyfleoedd i ehangu eu dysgu ac maent yn dechrau mabwysiadu’r ethos 'addysgu yn y foment'. Mae'r staff yn cynnal cyfarfodydd pwrpasol er mwyn cynllunio a thrafod gweithgareddau ac maent wedyn yn cynnwys y plant yn y broses gynllunio, gan ddilyn eu harweiniad a'u diddordebau.

Mae'r staff yn cydnabod achosion lle y gallai fod gan y plant anghenion ychwanegol. Maent yn cymryd camau pwrpasol ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r cymorth a'r arbenigedd sydd ar gael iddynt gan asiantaethau allanol. Mae'r staff yn darparu gofal sy'n ystyriol, wedi'i deilwra ac yn amyneddgar. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael eu cefnogi drwy greu gofod y gallant chwarae ynddo. Maent yn adnabod y plant yn eithriadol o dda ac yn falch iawn wrth sôn wrthym am eu cyflawniadau.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau cynhwysfawr ac maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel a'i fod mewn cyflwr da. Gwelsom gofnodlyfrau dyddiol o amseroedd cyrraedd a gadael y staff a'r plant. Mae ymwelwyr yn llofnodi i mewn ac allan yn y brif fynedfa. Mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol effeithiol a chywir, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ochr yn ochr â'r gwiriadau dyddiol o bob ardal. Caiff ymarferion tân rheolaidd eu cwblhau a'u cofnodi. Mae trefniadau glanhau cyson yn arwain at amgylchedd dan do sy'n lân ac yn ddymunol. Mae arferion rheoli heintiau effeithiol yn llwyddo i leihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda iawn er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr ardal chwarae awyr agored yn cael ei defnyddio bob dydd a'i bod yn estyniad i'r amgylchedd dysgu. Mae'r arweinwyr yn datblygu pob ardal yn barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn gyffrous ac yn ennyn chwilfrydedd y plant. Fodd bynnag, cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gael i'r plant fwynhau gwneud marciau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da sy'n briodol o ran camau datblygiad y plant er mwyn sicrhau bod amrywiaeth a dewis da ar gael iddynt. Maent wedi mabwysiadu'r dull ennyn chwilfrydedd gan ddefnyddio darnau rhydd. Mae hyn yn cynnwys ardal â deunyddiau naturiol i ysgogi dychymyg y plant, sy'n cynnwys cregyn, blociau, brigau, corc, tiwbiau cardfwrdd o wahanol faint a phegiau. Gall y plant gael gafael ar yr amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd. Fodd bynnag, nid oes llawer o adnoddau i hybu chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae'r staff yn sicrhau y gall pob plentyn fynd at y gweithgareddau a'r adnoddau ym mhob rhan o'r lleoliad.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |
|---|---|

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gref a gaiff ei rhannu ag eraill. Maent yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfoes ac effeithiol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac maent yn awyddus i hybu gwelliant. Maent yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol yn drefnus a'u bod yn cael eu cadw'n gywir. Maent yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gosod disgwyliadau uchel ac yn arwain drwy esiampl. Maent yn rhoi arferion gorau cyfredol ar waith sy'n berthnasol i'r plant sy'n cael gofal ganddynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dangos brwdfrydedd a chymhelliant i gynnig safonau uchel i'r plant sy'n mynychu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgymryd â phrosesau hunanwerthuso gweithgar. Maent yn llunio adroddiad trylwyr a myfyriol ar ansawdd y gofal, gan ofyn am safbwyntiau'r plant, y rhieni a'r staff a'u rhoi ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn er mwyn diogelu'r plant ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol. Mae gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith a chaiff gwiriadau addasrwydd eu cwblhau fel sy'n ofynnol. Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda a chynhelir sesiynau goruchwylio, arfarniadau a chyfarfodydd tîm yn rheolaidd. Ceir diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac mae'r arweinwyr yn dangos esiampl o hyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cydberthnasau ystyrlon a chadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr. Mae systemau rhagorol ar waith i roi gwybodaeth i'r rhieni am yr amser y mae eu plentyn yn ei dreulio yn y lleoliad, gan ddefnyddio ap electronig. Dywedodd y rhieni wrthym pa mor gefnogol a pharod eu cymwynas oedd y staff, a chymaint yr oedd eu plant yn mwynhau mynychu. Maent yn eithriadol o hapus â'r ffordd y caiff annibyniaeth eu plant ei meithrin a'i hannog ac yn teimlo bod eu plant yn ffynnu. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gydberthnasau da ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a'r gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau â'r ysgol a'r cylch chwarae sy'n gweithredu yn yr un lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud defnydd llawn o'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael ar garreg eu drws i wella dysgu'r plant yn y byd go iawn, fel ymweliadau â'r orsaf dân a gorsaf yr heddlu, y parc lleol a siopau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 23 - Cyfarpar | Mae deunyddiau chwarae addas ar gael sy'n hyrwyddo eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfleoedd cyfartal. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Cynnig mwy o gyfleoedd i wneud marciau fel rhan o'u chwarae. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/10/2023